

Nid achos – Crist

“Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.” (adn. 13)

Beth am ddarllen Philipiaid 4:10–20 ac yna myfyrio

Ystyriwch y frawddeg hon a ddarllenais ychydig yn ôl: “Nid oes ond un ffordd i fod yn unigolyn moesol a’r ffordd honno yw i ddewis eich achos a’i wasanaethu.” Mae’n berffaith wir i ddweud, os oes gennych achos yr ydych wedi ymroi yn llwyr iddo, yna mae yna ryw fesur o gytgord yn eich bywyd. Oni fyddai’n beth rhagorol petai ymrwymiad canolog y saint bob amser yn gorffwys ym mherson Iesu Grist? Wrth inni ildio i Iesu, yr ydym yn darganfod fod gennym achos – Y Deyrnas. Ond mae’r achos bob amser yn ddarostyngedig i’r person. Dyna pam na chlywch byth am Gristion yn sefyll i fyny ac yn rhoi ei dystiolaeth fel hyn: “Rhoddais fy mywyd i achos y deyrnas a chefais hyd i heddwch a llawenydd.” Yr hyn sydd i’w glywed yw: “Rhoddais fy mywyd i Grist, ac o’i wasanaethu ef, rwyf wedi darganfod llawenydd oedd y tu hwnt i’r disgwiliadau.”

Blynyddoedd lawer yn ôl, bûm yn cynghori gŵr oedd wedi treulio oriau mewn canolfan adfer yn ceisio torri’n rhydd o afael alcoholiaeth. Bûm yn meddwl llawer a oeddwn mewn sefyllfa i’w gynorthwyo. Er hynny, wedi i mi esbonio fod y sawl sydd yng Nghrist yn medru darganfod grym sydd yn llifo i mewn i’n calon ac yn grymuso ein hewyllys ni, aeth ar ei liniau ac ildio ei fywyd i Grist gan ofyn iddo ef ei reoli. Ar hyn, daeth yn ddyn newydd a pheidiodd yr yfed. Wrth i mi wasanaethu yn angladd y gŵr yma ugain mlynedd yn ddiweddarach, dywedodd ei wraig wrthyf nad oedd wedi cyffwrdd ag alcohol ers y dydd y bu iddo gael trôedigaeth. Dywedodd ei wraig: “Pan syrthiodd mewn cariad hefo Crist, yna fe ddfiannodd y cariadon eraill, ei alcoholiaeth, er enghraifft.” Cafodd hyd i hunanddisgyblaeth wrth i Grist lywodraethu yn ei galon.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 1:10–25;

Gal. 4:17–19; 6:14–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd achos Paul?
2. Sut fu i hyn ddylanwadu ar ei fywyd?

Gweddi

O Dad, rwy’n gweld mai ti sydd yn rheoli fy mywyd. Rwy’n gweld hefyd fy mod yn gallu gwneud pethau na allwn byth eu gwneud yn fy nerth fy hun. Mae’n perthynas yn golygu nad oes dim yn amhosibl gan fod dy rym di yn gweithio yn of fi. Arwain fi ymhellach, Arglwydd. Rwyf am dy ddilyn. Yn enw Iesu. Amen.